Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 2ail Gorffennaf 2024

Croeso a Gweddi.
Rhoddwyd gair o groeso a gweddi gan y cadeirydd

Presennol
Cadeirydd Jane Pierce ynghyd a'r Cynghorwyr, Elwyn Jones, Phyllis Ellis, Ynyr Parri, Elfed Wyn Williams a Gareth Hughes.

Ymddiheuriadau.
Elen George, Idris Thomas, Emma Chappell, Rhian Evans-Hill, Sasha Williams, Gareth Wyn Griffiths, Dawn Parry a Lowri James.

Datgan Buddiant
Dim

Cofnodion Cyfarfod y 5ed Fawrth 2024
Cafwyd y Cofnodion yn gywir a nodwyd fod yr holl benderfyniadau wedi eu gwneud yn unfryd gan Y Cyngor:

Gareth Hughes (1) **Elwyn Jones (2)**

Materion o'r Cofnodion.
Llwybr Rhes Uchaf - Nodwyd fod y tyllau ar y llwybr wedi eu llenwi bellach a Diolch i Gyngor Gwynedd am wneud hyn.

Gohebiaeth a Materion eraill.
Llythyr Diolch - Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan bennaeth Ysgol Gymuned Penisa'r-waun am y rhodd tuag at gostau cludo plant i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ym Meifod.

Cynllunio.
Dyma'r ceisiadau a dderbyniwyd:
C24/0467/18/AC - Bakhita, Bethel
Cais i ddiwygio amod 2 o ganiatâd cynllunio C19/0415/18/LL ar gyfer codi tŷ deulawr a datblygiadau cysylltiol er mwyn diwygio'r cynlluniau a gymeradwywyd. Dim gwrthwynebiad.
C24/0472/18/LL - Parciau Rhos, Bethel
Cais am adeilad amaethyddol newydd at ddibenion storio gweithdy fferm
Gwrthwynebu ar sail gord datblygu heb dystiolaeth o ffermio a phryder o droi yn stad fusnes.

Cadeirydd…….

C24/0378/18/LL - Ael y Garth, Y Felinheli.
Codi stabl a storfa cyfarpar newydd. Dim Gwrthwynebiad.
C24/0386/18/DT - Freshwinds, Penisa'r-waun.
Dymchwel modurdy ochr bresennol a chodi estyniad deulawr newydd i ochr yr eiddo. Dim Gwrthwynebiad
C24/0443/18/DT - Tŷ Mawr, Clwt y Bont
Codi sied/gweithdy gyda phaneli haul ar y to. Dim Gwrthwynebiad.

Llwybrau
Llwybr 122 - Derbyniwyd cadarnhad gan adran llwybrau, Cyngor Gwynedd o'n cwyn eto ynglŷn â'r giât anghyfreithlon ar y llwybr yma.
Llwybr Sinc - Mae ein darparwyr torri llwybrau yn gwrthod ymdrin â thorri'r llwybr yma bellach oherwydd bod cymaint o faw ci yn cael ei lechio neu ei adael yn y gwair. Mae hyn yn digwydd, er bod yna fin i faw ci ar gychwyn y llwybr ger y Cwt Band. Da chi bobl sydd gyda ci, codwch faw eich ci lle bynnag y bo, neu dyma fydd yn digwydd ar bob llwybr.
Llwybr tuag at Ffynnon Bethel - Cais i gael ei dorri**.**
Llwybr ger Capel Glasgoed a Tawelfan - Cais i dorri ger y giât
Llwybr heibio Capel Bethel - Mae'n ymddangos fod yr arwyddion fod y llwybr yma wedi cau wedi ei symud. Hyd nes bydd y llechi ar do'r capel wedi eu gwneud yn ddiogel, ni fydd y llwybr yma ar agor i'r cyhoedd.

Cyfarfod Pwyllgor Cyllid
Bu i'r Pwyllgor Cyllid gyfarfod er mwyn trafod materion cyllid, yn benodol ambell awgrymiad ar y Ffurflen Flynyddol 2022-2023, sydd bellach wedi eu datrys. Cyflwynwyd 2 bolisi sydd wedi eu hadolygu i'r Pwyllgor Llawn:
Polisïau'r Cyngor a Rheoliadau Ariannol
Cytunwyd yn gytûn i dderbyn yr adolygiad yn y polisïau, ac arwyddwyd gan y Cadeirydd.
Yn eu cyfarfod nesaf bydd y pwyllgor yn edrych ar Gofrestr Rheoli Risg.

O Gwmpas y Bwrdd
Dim

Cadarnhau Taliadau
Cyflwynwyd taliad y mis i'r Pwyllgor Cyllid, Cytunwyd fod y taliadau yn gywir a chadarnhawyd i dderbyn y taliadau gan y Cadeirydd.

Cadeirydd…….